



## Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru

**Yn bresennol:** Cynghorydd Rosemarie Harris – Arweinydd: Cyngor Sir Powys – **Cadeirydd (RH)**  
Cynghorydd Ellen Ap Gwynn – Arweinydd: Cyngor Sir Ceredigion – **Is-Gadeirydd (EAG)**  
Ann Elias – Cyngor Sir Ceredigion **(AE)**  
Ann Watkin – Llywodraeth Cymru **(AW)**  
Arwyn Davies – Cyngor Sir Ceredigion **(AD)**  
Arwyn Watkins OBE – Hyfforddiant Cambrian **(ArwynW)**  
Carole Weller – Llywodraeth Cymru **(CW)**  
Carwyn Jones-Evans – Cyngor Sir Ceredigion **(CJ-E)**  
Ceri Stephens, Grŵp Cynhyrchu Canolbarth Cymru **(CS)**  
Claire Miles – RET Canolbarth Cymru **(CM)**  
Cynghorydd Dafydd Edwards, Cyngor Sir Ceredigion **(DE)**  
Cynghorydd Phyl Davies, Cyngor Sir Powys **(PhD)**  
Cynghorydd Rhodri Evans – Aelod Cabinet: Datblygu Economaidd (Ceredigion) **(Cyng. RE)**  
Cynghorydd Rowland Rees-Evans, Twristiaeth Canolbarth Cymru **(RRE)**  
Dr. Rhodri Llwyd Morgan – Prifysgol Aberystwyth **(RLIM)**  
Eifion Evans – Prif Weithredwr: Cyngor Sir Ceredigion **(EE)**  
Emma Wilde – Siambr Fasnach Canolbarth Cymru **(EW)**  
Gareth Jones – Cyngor Sir Powys **(GJ)**  
Gareth Rowlands – Cyngor Sir Ceredigion **(GR)**  
Geraint Rees, Cyngor Sir Powys **(GRees)**  
Gwilym Jones, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant **(GJ)**  
Helen Jones – Croeso Cymru **(HJ)**  
Hywel Davies – Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant **(HD)**  
Lowri Gwilym, CLILC **(LG)**  
Marie Evans – RET Canolbarth Cymru **(ME)**  
Martin Cox, Cyfoeth Naturiol Cymru **(MC)**  
Nia Williams – Cydbwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru **(NW)**  
Nick Venti, PAVO **(NV)**  
Nigel Brinn – Cyngor Sir Powys **(NB)**  
Peter Howells – NFU **(PH)**  
Rachel Garside-Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr dros Fuddsoddi Rhanbarthol – Llywodraeth Cymru **(RG-J)**  
Rhian Hayward – Prifysgol Aberystwyth **(RhH)**  
Russell Hughes-Pickering – Cyngor Sir Ceredigion **(RHP)**  
Steve Hughson – Prif Weithredwr: Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru **(SH)**

### **Yn bresennol hefyd:**

Chris Pirson, Prifysgol Aberystwyth  
Athro Karl Hoffman, Prifysgol Aberystwyth  
Claire Parsons, Partneriaeth Camlas Trefaldwyn  
David Morgan, Partneriaeth Camlas Trefaldwyn  
John Dodwell, Partneriaeth Camlas Trefaldwyn  
Michael Limbrey, Partneriaeth Camlas Trefaldwyn  
Carly McCreech, Canolfan Cydweithredol Cymru

<p>1.</p>	<p><b>Ymddiheuriadau</b> Cafwyd ymddiheuriadau gan:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyngorydd Dyfrig Siencyn, Cyngor Sir Gwynedd</li> <li>• Cyngorydd Gareth Thomas, Cyngor Sir Gwynedd</li> <li>• Derek Walker – Canolfan Cydweithredol Cymru</li> <li>• Glenn Bowen – Canolfan Cydweithredol Cymru</li> <li>• Gwilym Davies, Cyngor Sir Powys</li> <li>• Jane Lewis, Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol a Phartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol</li> <li>• Jayne Jones - Grŵp Colegau NPTC</li> <li>• Mark Dacey – Grŵp Colegau NPTC</li> <li>• Nina Davies, Cyngor Sir Powys</li> <li>• Peter Davies MBE – Undeb Amaethwyr Cymru (PD)</li> <li>• Peter James, Llywodraeth Cymru</li> <li>• Peter Skitt – Bwrdd Iechyd Hywel Dda</li> <li>• Rob Holt, Llywodraeth Cymru</li> <li>• Vivienne Lewis, Llywodraeth Cymru</li> </ul>	
<p>2.</p>	<p><b>COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL – 21 Medi 2020</b> Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 21 Medi 2020 yn gofnod cywir, ar yr amod bod y mân ddiwygiadau canlynol yn cael eu gwneud iddynt:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nodi mai EAG oedd Cadeirydd y cyfarfod</li> <li>• Cynnwys Gwilym Jones, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ar restr y rhai a oedd yn bresennol</li> </ul>	
<p>3.</p>	<p><b>Bargen Twf Canolbarth Cymru – Diweddariad am y Cynnydd</b></p> <p>Adroddodd CJE bod gennym ddrafft terfynol Penawdau'r Telerau gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru (LIC) erbyn hyn. Nododd CJE y bydd Bwrdd TCC (Cydbwyllgor) yn ystyried Penawdau'r Telerau drafft yn eu cyfarfod yfory (4 Rhagfyr 2020), ac y bydd yn cael ei gyflwyno i Fwrdd Rhynglywodraethol y Llywodraeth ar 9 Rhagfyr 2020.</p> <p>Dywedodd CJE bod y ddogfen yn cael ei thrafod o hyd ac nad yw'n ddogfen gyhoeddus ar hyn o bryd. Esboniodd CJE nad oes unrhyw fanylion wedi cael eu cynnwys am unrhyw raglenni neu brosiectau ar yr adeg hon, gan bod y Fargen Twf yn cael ei datblygu fesul achos busnes portffolio.</p> <p>Dywedodd CJE bod y ddwy Lywodraeth wedi ailddatgan y £55mil ar gyfer Bargen Twf Canolbarth Cymru yn ystod yr Adolygiad o Wariant yn ddiweddar.</p> <p>Ar yr amod bod Bwrdd TCC yn cytuno ar ddogfen ddrafft Penawdau'r Telerau yfory, dywedodd CJE mai'r gobaith yw y bydd modd llofnodi Penawdau'r Telerau cyn y Nadolig.</p> <p>Roedd EAG yn dymuno diolch i CJE am y gwaith a wnaethpwyd i gyflawni Penawdau'r Telerau drafft a nododd bod swyddogion y ddwy Lywodraeth yn fodlon gyda safon y ddogfen ddrafft. Nododd EAG y bydd hi ac RH yn anfon llythyr at y ddau Weinidog yn gofyn a fyddai modd llofnodi Penawdau'r Telerau cyn y Nadolig.</p> <p>Roedd y Cadeirydd yn dymuno ategu diolch EAG i CJE, a diolchodd i PG am ei fewnbnw hefyd.</p> <p>Dywedodd AW bod swyddogion o Lywodraeth y DU a LIC wedi bod yn cydweithio'n agos gyda swyddogion o'r rhanbarth er mwyn helpu i ddatblygu Penawdau'r Telerau yn gyflym. Dywedodd AW y dylai dderbyn clod am y gwaith a gyflawnwyd. Nododd AW bod prosesau mewnol i'r ddwy Lywodraeth eu dilyn nawr, er mwyn cymeradwyo Penawdau'r Telerau yn fewnol. Dywedodd AW y cyflwynwyd y ddogfen i Fwrdd LIC</p>	

	<p>yn ddiweddar, ac fe'i chymeradwywyd gyda mân sylwadau, ac fe'i chyflwynir i'r Bwrdd Rhynglywodraethol ar y Cyd ar 9 Rhagfyr ac yna, fe'i chyflwynir gyda chyngor i Weinidogion yn y ddwy Lywodraeth er mwyn ei chymeradwyo'n ffurfiol. Nododd AW y byddant yn gwneud popeth y gallant i sicrhau bod Penawdau'r Telerau yn cael eu llofnodi cyn y Nadolig, fodd bynnag, mae hyn yn ddibynnol ar y dyddiaduron ac ar amserlen y cyfarfodydd a fydd yn ofynnol.</p> <p>Yn ogystal, diolchodd RLIM i CJE a'r tîm am y gwaith a gyflawnwyd ac roedd yn falch o glywed bod y gwaith yn symud yn ei flaen. Gofynnodd RLIM a fyddai modd i CJE ddarparu gwybodaeth bellach am y gwaith sy'n parhau mewn rhai o'r grwpiau/themâu.</p> <p>Cafwyd diweddariad gan CJE ynghylch pryd y gall prosiectau ddod yn eu blaen a phryd y gallwn ddechrau ystyried y manylion. Dywedodd CJE bod cynnydd yn cael ei sicrhau mewn amserlen lawer fwy cyfyngedig o'i chymharu â bargeinion eraill, a'r ail garreg filltir fydd cytundeb y fargen lawn a llythyr y cynnig cyllid. Dywedodd CJE bod gwaith yn parhau ar y sectorau a'r themâu a nodwyd yn y ddogfen strategaeth, ac y penodwyd Ymgynghorwyr SQW, ac mae grŵp llywio wedi cael ei sefydlu gyda Phrifysgol Aberystwyth ac Aberinnovation er mwyn cynnal ymarfer dichonolrwydd a chwmpasu o ran y buddsoddiad sy'n ofynnol. Dywedodd CJE bod gwaith wedi cychwyn ar gysylltedd digidol hefyd, a bod gwaith yn mynd rhagddo gyda'r safleoedd a'r eiddo er mwyn pennu ymyriadau gofynnol.</p> <p>Dywedodd CJE bod Cyngorau Sir Ceredigion a Phowys wedi cytuno darparu adnoddau ar gyfer Swyddfa Rhaglen, a'r gobaith yw y bydd modd sefydlu hon yn y flwyddyn newydd, ac y bydd yn cael ei hariannu gan gyllid refeniw UE. Dywedodd CJE y gofynnir am eglurder gan y ddwy Lywodraeth ynghylch lefel y manylder sy'n ofynnol er mwyn cael achosion busnes portffolio a'r cytundeb ar y fargen derfynol yn y Flwyddyn Newydd. Dywedodd CJE bod y ddwy lywodraeth wedi ailddatgan, er gwaethaf yr argyfwng economaidd presennol, y bydd y Fargen Twf yn parhau i fod yn fuddsoddiad 15 mlynedd ac y caiff y cyllid ei osod ar brydlles bob blwyddyn. Dywedodd CJE bod y gwaith portffolio parhaus yn ystyried yr amcanion ar lefel uchel a pha drafodaethau ehangach fydd yn cael eu cynnal gydag Economegwyr LIC dros yr wythnosau nesaf er mwyn pennu'r meini prawf ar gyfer ffactor llwyddiant allweddol.</p> <p>Dywedodd CJE ei fod yn croesawu trafodaeth am unrhyw brosiect posibl ar unrhyw adeg.</p> <p>Dywedodd y Cadeirydd y cyflwynir adroddiadau o'r gweithgorau yng nghyfarfodydd y bartneriaeth yn y dyfodol.</p>	
<p><b>4.</b></p>	<p><b>Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol – Diweddariad am y Cynnydd</b></p> <p>Esboniodd y Cadeirydd y bu Ceredigion a Phowys yn rhan o RLSP ehangach yn hanesyddol, a oedd wedi cynnwys y De a'r Gorllewin, ac y teimlwyd y byddai'n fwy buddiol pe bai un Partneriaeth ar gyfer y ddwy ardal law yn llaw â'r Fargen Twf. Dywedodd y Cadeirydd y cyflwynir Adroddiadau ynghylch sefydlu RLSP Canolbarth Cymru i'r ddau Gabinet cyn bo hir. Dywedodd y Cadeirydd yr hoffai awdurdodau glywed gan fusnesau ynghylch y sgiliau y mae eu hangen arnynt.</p> <p>Nododd NB eu bod yn dymuno penodi rheolwr RLSP cyn gynted ag y bo modd. Dywedodd NB y caiff adroddiad ei gyflwyno i Gabinet Cyngor Sir Powys ar 15 Rhagfyr yn dilyn argymhellid y cytunwyd arno gan Fwrdd TCC ynghylch diwygiad i'r Cylch Gorchwyl am yr IAA, sy'n cynnwys yr RLSP. Nodwyd bod Cabinet Ceredigion eisoes wedi cytuno ar hwn. Nododd NB y bydd y gwaith yn canolbwyntio ar weithredoli'r gweithgarwch nawr, gan geisio enwebiadau ar gyfer agweddau amrywiol ar y gwaith.</p> <p>Dywedodd NB y bydd yn rhoi diweddariad i'r Bartneriaeth am gynnydd pellach yn y Flwyddyn Newydd.</p>	

	<p>Atgoffwyd pawb gan CJE o'r ffaith y caiff Agenda a phapurau Bwrdd TCC (Cydbwyllgor) eu cynnwys ar wefannau Ceredigion a Phowys.</p>	
<p><b>5.</b></p>	<p><b>Diweddariadau Busnes</b></p> <p><b>i. Y Rhaglen Buddsoddi Adfywio wedi'i Dargedu</b></p> <p>Rhoddodd GR ddiweddariad ar lafar i'r Bartneriaeth. Nododd GR bod rhan fwyaf y penderfyniadau a wnaethpwyd gan y Bartneriaeth yn flaenrol wedi cael eu cyflawni. Dywedodd GR bod LIC wedi cadarnhau mai'r dyraniad TRIP blynyddol fydd £2.52mil. Dywedodd GR y rhagwelir nawr mai swm y llithriant ym mhrosiect Auto Palace flwyddyn nesaf fydd £1.16 miliwn. Ni fu modd osgoi'r llithriant hwn, sydd wedi deillio o newid ym mherchnogaeth cwmni dal eiddo yn oedi'r broses brynu gan Gyngor Sir Powys. Datryswyd y mater hwn erbyn hyn, a bydd yn digwydd tua diwedd mis Rhagfyr. Dywedodd GR bod grŵp rheoli TCC yn cael trafodaethau am ddull pragmatig i adael y flwyddyn gyda mwy na'r swm a nodwyd yn y gyllideb, ar sail y dybiaeth y bydd arian adfywio pellach gan LIC yn ychwanegu at gyllideb y flwyddyn nesaf neu er mwyn gwasgaru'r gwariant dros 2 flynedd. Os na fydd hyn yn bosibl am eleni, dywedodd GR y bydd angen lleihau'r gyllideb cynllun thematig newydd ar gyfer blwyddyn nesaf efallai.</p> <p>Adroddodd GR am gynllun cenedlaethol newydd a fydd yn bodoli ym mis Ebrill 2021 o'r enw y Cynllun Grant Trawsnewid Trefi, a fydd yn gweld amrediad o weithgarwch yn nhrefi'r rhanbarth, a dywedodd bod swyddogion yn mynd trwy'r broses o baratoi cais i LIC am ddyraniad o hyd at £1.5mil ar gyfer Canolbarth Cymru.</p> <p>Dywedodd GR y bydd Strategaeth Adfywio bresennol Canolbarth Cymru a ysgrifennwyd ar gyfer TRIP yn dod i ben ym mis Mawrth 2021, fodd bynnag, argymhellodd Swyddogion Rheoli TCC nad oes gofyn cael Strategaeth newydd ar yr adeg hon.</p> <p><b>ii. Adroddiad y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol</b></p> <p>Rhoddodd CM ddiweddariad i'r Bartneriaeth i gyd-fynd â'r Adroddiad a ddisbarthwyd ymlaen llaw. Dywedodd CM bod gwefan TCC bellach yn fyw (ceir dolen yn yr Adroddiad). Nododd CM y cynhaliwyd lansiad meddal o'r wefan ac mae'n croesawu unrhyw adborth pellach gan Aelodau. Dywedodd CM bod y tîm yn gweithio tuag at gael llythyr hyrwyddo hefyd.</p> <p>Dywedodd CM y bu nifer o ddatblygiadau polisi ers y cyfarfod diwethaf, fel y rhestrir yn yr Adroddiad. Nododd CM bod y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol wedi cael ei gyhoeddi erbyn hyn (mae dolen yn yr Adroddiad). Ers drafftio'r adroddiad, nododd CM y cafwyd cyhoeddiadau pellach o'r Adolygiad o Wariant, y mae RET yn eu hystyried ar hyn o bryd.</p> <p>Hysbyswyd yr aelodau gan CM o'r ffaith y bydd y Rheolwr RET yn arwain ar y Fargen Twf am gyfnod nawr. Mae staffio a gallu yr RET yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, a rhoddir diweddariad pellach am staffio yn ystod cyfarfod nesaf y Bartneriaeth.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i CM am y diweddariad a nododd bod angen bod swyddog sydd â'r amser i ystyried y gwahanol gyhoeddiadau ynghylch cyllid, er mwyn nodi a fyddai unrhyw rai o fudd i'r rhanbarth.</p> <p><b>iii. Gweithgor Cysylltedd a Seilwaith</b></p> <p>Rhoddodd AE ddiweddariad i'r Bartneriaeth er mwyn cyd-fynd â'r Adroddiad a ddisbarthwyd ymlaen llaw. Dywedodd AE bod LIC yn cynnal ymgynghoriad ar hyn o bryd ynghylch Llwybr Newydd: Strategaeth Trafnidiaeth newydd Cymru, a bod gofyn gwneud sylwadau arni erbyn 25 Ionawr 2021. Caiff ymateb rhanbarthol ei baratoi a'i</p>	

	<p>ddosbarthu i'r Bartneriaeth er mwyn ei gymeradwyo. Dywedodd AE bod Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU yn galw am dystiolaeth am gysylltedd o fewn yr undeb ac am waith trawsffiniol ar draws rhanbarth Canolbarth Cymru.</p> <p>Adroddodd AE am ddarnau gwaith newydd sy'n cael eu cyflwyno, a dywedodd bod LIC yn cynnal astudiaeth WeITAG am yr A44 rhwng Llangurig ac Aberystwyth. Mae Highways England wedi datgan y cynhelir astudiaethau WeITAG ar goridau 483 a 485.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i bawb am y diweddariadau a roddwyd heddiw ac am yr holl waith a wnaethpwyd.</p>	
<p><b>6.</b></p>	<p><b>Diweddariad gan Lywodraeth Cymru</b></p> <p>Rhoddodd RGJ ddiweddariad i'r Bartneriaeth yn dilyn yr adolygiad o wariant yr wythnos ddiwethaf, a nododd y bydd gwybodaeth bellach yn dilyn am gronfeydd amnewid. Dywedodd RGJ y cyhoeddwyd £220mil ar gyfer y DU gyfan ar gyfer peilot Cronfa Fuddsoddi Gymunedol, ac mae hwn yn swm llawer is na'r swm y gofynnwyd amdano. Ceir ymrwymiad i godi hwnnw i gyd-fynd â tharged blynyddol yn dilyn targed cychwynnol, ac y caiff hwnnw ei fonitro yn ofalus.</p> <p>Dywedodd RGJ bod bil y farchnad fewnol yn mynd trwy'r camau Seneddol. Rhoddwyd diweddariad i grŵp llywio RIIW ynghylch safbwynt LIC ac mae RGJ yn fodlon cyfleu'r wybodaeth honno i Aelodau'r Bartneriaeth.</p> <p>Dywedodd RGJ y cyhoeddwyd y Fframwaith Cenedlaethol ar 18 Tachwedd a diolchodd i bawb sydd wedi rhoi mewnbwn. Dywedodd RGJ, o ran y peilot, y cyhoeddir y prospectws yn gynnar ym mis Ionawr. Dywedodd RCJ y cyhoeddir Fframwaith Buddsoddi Llywodraeth y DU yn y Gwanwyn. Bydd RGJ yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bartneriaeth.</p> <p>Dywedodd RGJ y bydd y Cyngor Cyffredinol yn cyfarfod gyda DCLG a Gweinidog DPW ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn y Flwyddyn Newydd.</p> <p>Dywedodd RGJ y cynhelir Gweithgor Gweinidogol heddiw i drafod yr Adolygiad o Wariant. Cynhelir grŵp llywio ychwanegol ar 16 Rhagfyr a byddai'r Cadeirydd yn dymuno clywed safbwyntiau rhanddeiliaid yn ystod y cyfarfod hwnnw.</p> <p>Dywedodd y Cadeirydd y byddai o fudd cael trosolwg o fuddsoddiad gwledig yn y dyfodol.</p> <p>Dywedodd LG bod trafodaethau'n cael eu cynnal gydag LGA er mwyn sicrhau y bydd Awdurdodau Lleol a sefydliadau yng Nghymru yn gallu manteisio ar y £220mil er mwyn peilota dulliau dulliau gweithredu o fis Ebrill 2021 ymlaen. Cynhelir cyfarfod o Bwyllgor Gweithredol LGA yn nes ymlaen heddiw, a bydd LG yn rhannu unrhyw wybodaeth bellach a geir yn ystod y cyfarfod hwnnw. Mae LG wedi gofyn am gyfarfod gyda'r Gweinidog Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol cyn y Nadolig hefyd.</p> <p>O ran cyllid ar gyfer datblygu gwledig y soniwyd amdano yn yr Adolygiad o Wariant, nododd LG bod gwaith dadansoddi gan LIC wedi datgan bod diffyg o £137mil ar gyfer datblygu gwledig ac amaethyddol yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, sy'n cynnwys colofn 1 a cholofn 2, a bod hyn yn bryder mawr. Gofynnwyd am ddadansoddiad pellach o'r ffigurau gan Swyddogion.</p> <p>Dywedodd LG bod cymysgedd o gyllid ar ôl yn y rhaglenni presennol, y gallwn ei wario a'i ddarparu o hyd tan 2023, fodd bynnag, ceir pryder mawr nad oes digon o gyllid ar gyfer datblygu gwledig.</p>	

Adroddodd EAG yn dilyn cyfarfod rhwng Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r holl Arweinwyr. Nododd EAG mai'r neges yn ystod y cyfarfod hwnnw oedd bod yr arian yn cael ei gadw yn ganolog ac y bydd Llywodraeth y DU yn arwain, ac nad oes unrhyw arwydd y bydd yn cael ei ddatganoli i Lywodraeth Leol neu ranbarthau. Dywedodd EAG ei bod hi'n deall o'r cyfarfod bod arian ar ôl o hyd yng nghyllid UE tan 2023 i gyfateb lefel y cyllid a fydd yn dod o Lywodraeth y DU.

Ymatebodd RGJ gan nodi y bydd yn dibynnu ar hynt bil y farchnad fewnol. Os bydd bil y farchnad fewnol yn llwyddiannus, bydd yn sefyllfa wahanol. Dywedodd RGJ eu bod wedi ymateb i'r Ysgrifennydd Gwladol gan nodi na ellir drysu rhwng cyllid amnewid a'r hyn a geir gan UE ar hyn o bryd.

Rhoddodd AW ddiweddariad i bawb am y REF, sy'n nodi set gyffredin o flaenoriaethau a rennir, y cytunwyd arnynt gyda'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol yn y rhanbarth. Dywedodd AW eu bod wedi sicrhau gwasanaethau rhwydwaith cydgynhyrchu Cymru i ymgysylltu gyda chroestoriad eang o randdeiliaid cymunedol er mwyn cydgynhyrchu'r ddogfen. Nododd AW y cynhaliwyd nifer o sesiynau a sesiynau ffocws thematig ar draws y rhanbarth. Dywedodd AW eu bod wedi ymgysylltu gyda phobl ifanc yn y rhanbarth hefyd, a'u bod wedi cynnal sesiynau gydag ysgolion. Nododd AW bod gwaith yn mynd rhagddo nawr i drafftio'r ddogfen a chynhelir gweithgarwch ymgysylltu gyda chydweithwyr a swyddogion yn y Flwyddyn Newydd. Dywedodd AW mai'r gobaith yw y cyflwynir dogfen ddrafft yn ystod cyfarfod nesaf y Bartneriaeth.

Dywedodd AW bod Ken Skates AS wedi sicrhau bod pecyn cymorth estynedig ar gael i fusnesau, a bydd AM yn anfon y Datganiad ymlaen i CM, er mwyn ei dosbarthu ymhlith yr aelodau.

Dywedodd AW bod LIC yn atgoffa busnesau o broses bontio UE hefyd, a bod llythyr wedi cael ei anfon gan y Gweinidog Busnes yng Nghymru, yn eu hannog i wneud popeth y gallant er mwyn paratoi.

Hysbysodd AW y bartneriaeth o'r ffaith y sicrhawyd cyllidebau rhanbarthol, a'u bod yn gweithio gyda nifer o bartneriaid ar brosiectau.

Dywedodd LG y disgwylir i Fil Marchnad Fewnol y DU fynd yn ôl gerbron Tŷ'r Cyffredin yn gynnar wythnos nesaf, a bod Llywodraeth y DU yn disgwyl rhoi'r Cymalau ynghylch Gogledd Iwerddon a wrthodwyd gan yr Arglwyddi yn ôl ynddo, ac yna, ei ail-gyflwyno i'r Arglwyddi. Dywedodd LG y disgwylir Bil Cyllid y DU yr wythnos nesaf hefyd.

Adroddodd SH yn dilyn cyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Ysgrifennydd dros DEFRA, nad oes 52% o fusnesau yn barod ar gyfer Brexit oherwydd bod busnesau'n brysur yn delio gydag effaith Covid. Dywedodd AW y cynhaliwyd nifer o weminarau ar y cyd gyda Llywodraeth y DU ynghylch bod yn barod ar gyfer UE, ac mae LIC yn ceisio dosbarthu a hyrwyddo'r rhain ymhlith busnesau gymaint ag y bo modd. Atgoffwyd yr holl aelodau gan AW o'r ffaith bod gwefan Busnes Cymru yn cynnwys gwefan bwrpasol sy'n cynnwys llawer o gyngor a gwybodaeth i fusnesau. Dywedodd CM y gellir hyrwyddo'r wefan hon trwy'r cyfrif twitter rhanbarthol hefyd.

Rhannodd PH, NFU, ei rwystredigaeth ynghylch y diffyg yn y gyllideb amaethyddol. Dywedodd PH bod hon yn ergyd fawr i fyd amaeth yng Nghymru, a hynny yn ystod cyfnod mor ansicr. Yn ystod y cyfnod cyn y refferendwm ynghylch UE, dywedodd PH y dywedwyd yn gyson wrth y sector amaeth yng Nghymru y byddai cyllid yn cael ei gynnal a'i ddiogelu. Dywedodd PH ei bod yn ymddangos bod ffigurau sy'n mynd yn groes i'w gilydd, ac y bydd cytundeb neu ddim cytundeb yn arwain at amhariadau ar gyfer amaethyddiaeth, a fydd yn arwain at amhariad i'r gadwyn fwyd.

	<p>Dywedodd LG bod y ddwy undeb amaethu wedi nodi diffyg o £95mil, a dyma pam bod LG wedi gofyn am ddadansoddiad o'r ffigurau. Mae gwaith dadansoddi LIC wedi dangos diffyg o £137mil, sy'n ystyried gwariant prosiect ar RDP a'r trosglwyddiad colofn 15% rhwng colofn 1 a 2.</p> <p>Holodd PAVO am unrhyw gymorth i fusnesau ac am statws neuaddau cymunedol. Dywedodd y Cadeirydd y bydd hi'n gofyn i swyddog o Gyngor Sir Powys i gysylltu ag NV i drafod hyn ymhellach.</p>	
<p><b>7.</b></p>	<p><b>Diweddariadau Rhanbarthol Ehangach</b></p> <p><b>i. VetHub1</b></p> <p>Roedd Athro Karl Hoffman, Arweinydd Academaidd ar gyfer VethHub<sup>1</sup> yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno'r cyflwyniad sydd ynghlwm ynghylch Labordy VetHub<sup>1</sup>, sef Clwstwr Arloesi £4.2m sydd wedi sicrhau Cefnogaeth UE, i ddarparu Cyfleusterau Iechyd Anifeiliaid/ Biddiogel yng nghanol campws Prifysgol Aberystwyth, gan fanteisio ar arbenigedd academaidd blaenllaw yn y byd a'r offer labordy diweddaraf. Mae copi o'r cyflwyniad ynghlwm.</p>  <p>MWPM_Hoffmann.pptx</p> <p>Roedd y cyflwyniad wedi canolbwyntio ar:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y labordai CL3/CL2 a'r swyddfeydd sydd ar gael</li> <li>• Effaith economaidd bosibl VetHub<sup>1</sup></li> <li>• Tîm VetHub<sup>1</sup></li> <li>• Strategaeth Iechyd Anifeiliaid/ Iechyd y Cyhoedd AU</li> </ul> <p>Dilynwyd hyn gan gyfle i drafod a gofyn cwestiynau.</p> <p>Dywedodd EAG bod y gwaith a gynhelir gan y tîm i ddatblygu ffrydiau gwaith newydd yn wych. Dywedodd EAG y bydd y gwaith a wneir gan y tîm ynghylch TB yn hynod o bwysig i'r diwydiant Ilaeth a datblygu gwaith amaethyddol yn y dyfodol yn dilyn Brexit, a bydd yn helpu i ddatblygu swyddi ar lefel uchel. Dywedodd EAG y bydd y buddsoddiad o fudd i'r rhanbarth.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i Athro Karl Hoffman a'i dîm am eu cyflwyniad i'r Bartneriaeth heddiw.</p> <p><b>ii. Partneriaeth Camlas Trefaldwyn</b></p> <p>Roedd John Dodwell a Michael Limbrey o Bartneriaeth Camlas Trefaldwyn yn bresennol yng nghyfarfod y Bartneriaeth er mwyn rhoi cyflwyniad i'r Aelodau am Bartneriaeth Camlas Trefaldwyn. Mae copi o'r cyflwyniad ynghlwm.</p>  <p>Presentation to Growing Mid Wales</p> <p>Roedd y cyflwyniad wedi canolbwyntio ar:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Map o Gamlas Trefaldwyn</li> <li>• Map Dyfrffyrdd Cenedlaethol</li> <li>• Camlas Trefaldwyn heddiw</li> <li>• Cefnogaeth gan Gyngorau Tref a Chymuned</li> <li>• Partneriaeth Camlas Trefaldwyn</li> <li>• Buddion gan weithgarwch i adfer Camlesi eraill</li> <li>• Buddion gwaith adfer ym Mhowys</li> </ul>	

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y strategaeth adfer</li> <li>• Y ffit Strategol gydag Agenda PTCC</li> </ul> <p>Diolchodd RH i John Dodwell a Michael Limbrey am eu cyflwyniad i'r Bartneriaeth heddiw.</p> <p>Dyweddodd JD y byddent yn gwerthfawrogi trafod y Fargen Twf ymhellach gyda swyddogion ar ôl iddi gael ei datblygu ymhellach. Dywedodd CJE nad Partneriaeth TCC yw'r fforwm ar gyfer cyfleoedd cyllido posibl y Fargen Twf, a nodwyd y gallai ffynonellau cyllid eraill fod ar gael hefyd, ac y byddai trafodaethau pellach yn cael eu cynnal all-lein.</p>	
<p><b>8.</b></p>	<p><b>Unrhyw Fater arall</b> Nid oedd unrhyw faterion ychwanegol i'w trafod.</p>	
<p><b>9.</b></p>	<p><b>DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF</b> Cynhelir y cyfarfod nesaf ar ddydd Llun, 15 Chwefror am 10.30am ar Zoom (manylion i'w cadarnhau)</p>	

**CYNGHORYDD ROSEMARIE HARRIS - ARWEINYDD  
CYNGOR SIR POWYS  
YN Y GADAIR**